



Adroddiad Ein Haddewid am 2022/2023



ClwydAlyn

ClwydAlyn.co.uk/EinHaddewid

Sut yr Ydym yn
Gwneud Pethau



Ymddiriedaeth



Caredigrwydd



Gobaith

Ein haddewid yw ein siarter preswylwyr.

Rydym wedi gweithio gyda gwirfoddolwyr #Dylanwadwch a'n Pwyllgor Preswylwyr i greu a lansio 'Ein Haddewid' sy'n nodi beth ddylai ein preswylwyr ei ddisgwyl gan ClwydAlyn.

Rydym yn defnyddio Ein Haddewid i fesur ein perfformiad, gyrru gwelliannau gwasanaeth ac mae'n ein gwneud yn atebol i breswylwyr mewn modd agored a didwyll.

Credwn fod cartref yn bwysig ac y dylai cartref fod yn fwy na dim ond pedair wal a tho. Mae Ein Haddewid yn nodi ein hymrwymiad i gyflawni gwasanaethau rhagorol.



Sicrhau bod eich cartref yn ddiogel, yn saff ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda.



99.9% o gartrefi sydd ag offer nwy â gwiriad diogelwch nwy cyfredol, wedi ei achredu.



100% o'r adeiladau ag Asesiad Risg Tân cyfredol sy'n cydymffurfio.



100% o gartrefi yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.



87% o'n preswylwyr yn fodlon ar ansawdd eu cartref.

89%

89% o breswylwyr yn fodlon bod eu cartref yn ddiogel a saff



87%

87% o'n preswylwyr yn fodlon ar ansawdd eu cartref.



£5.4
Miliwn

wedi ei wario ar wella'r
cartrefi sy'n bodoli.

£9.1
Miliwn

wedi ei wario ar
drwsio a chynnal a
chadw cartrefi.

£1.2
Miliwn

o grantiau wedi eu
derbyn a'u gwario ar
adnewyddu 36 o gartrefi
a fu'n wag am dymor
hir yn ôl yn gartrefi.

28,322

o Dystysgrifau
cydymffurfio a rhoi
gwasanaeth i
asedau wedi eu
cynnal.

2700+

o Synwryddion
Carbon Monocsid
(CO2) wedi eu gosod
ym mhob cartref
addas.

446

o ddrysau tân
newydd wedi eu
gosod ar gartrefi
presennol.

834

o Wiriadau Iechyd
Cartref wedi eu
cwblhau gan gynnwys
darlleniadau
tamprwydd.

233

o gartrefi wedi
eu haddasu i fod yn
addas i anghenion ein
preswylwyr, 900k
wedi ei wario.

515

o gartrefi
gwag wedi eu
hadnewyddu.

100%

o'r gwaith
argyfwng wedi
cael sylw ar
amser.

973

o'r cartrefi sy'n
bodoli wedi
eu gwella.

95

o fwyleri nwy
gradd A wedi
eu gosod

215

o ystafelloedd
ymolchi wedi eu
huwchraddio

236

o geginau wedi eu
huwchraddio

97

o systemau
cynhesu dŵr wedi
eu huwchraddio

281

o ffenestri a drysau
wedi eu huwchraddio

49

o systemau gwresogi
trydanol wedi eu
huwchraddio

Buddsoddi yn y cartrefi presennol

Rydym wedi buddsoddi £5.4m i wella 973

o gartrefi

gan gynnwys gwelliannau
effeithlonrwydd ynni fel bwyleri
cyfradd A newydd, ffenestri a
drysau gwydr dwbl, diweddaru
systemau cynhesu dŵr a
diweddaru systemau gwresogi
trydan.

Mae hyn wedi helpu
2,978 o breswylwyr
i arbed hyd at
£62.66 y flwyddyn
ar arbediadau ynni.

Ôl-osod ein cartrefi

Rydym wedi defnyddio dull
sy'n rhoi pwyslais ar y person
wrth ddyrannu gwaith ar gyfer
ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn
Optimeiddio (ORP). Bu Swyddogion
Tai yn gweithio gyda'n tîm
asedau a hinsawdd i ddynodi
preswylwyr sy'n methu fforddio
cynhesu eu cartrefi. Defnyddiodd
y swyddogion ddull holistaidd
wrth gyfeirio pobl a chartrefi i
gael eu cynnwys yn y rhaglen.
Nid yn unig mae'r rhaglen yn
gwneud gwelliannau sylweddol
i berfformiad ynni'r cartref, mae
hefyd yn lleihau'r costau ynni i'r
preswylwr.

Prosiect Lloriau

Rydym yn deall sut y mae lloriau
addas yn cyfrannu at gartref
cynnes ac yn lleihau costau
gwresogi; rydym yn parhau i
gefnogi preswylwyr sy'n methu
fforddio lloriau trwy ein Cronfa
Preswylwyr.

Buddsoddi mewn cartrefi newydd

Fe wnaethom
gwblhau 102 o
gartrefi newydd
effeithlon o ran ynni
(wedi cyrraedd perfformiad
ynni Gradd A). Mae 72 yn
gartrefi carbon isel gwyrdd
a thu hwnt i A EPC.

Yn ystod y cynllunio a'r adeiladu,
mae'r cartrefi'n cael eu gosod
i wneud y mwyaf o olau haul
a golau naturiol, a defnyddir
'Dulliau Adeiladu Modern',
gan ddefnyddio cymaint
o ddeunyddiau naturiol a
chynaliadwy ag sy'n bosibl.
Mae'r technolegau effeithlon o
ran ynni a osodwyd yn cynnwys
pympiâu gwres ffynhonnell aer,
paneli solar a batris storio trydan
solar, a chyfleusterau gwefru ceir
trydan.



Sicrhau bod eich cartref yn fforddiadwy a'ch cefnogi chi gyda chynghor ar incwm a lles.



87%

o breswylwyr yn fodlon bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian.



Mae ein polisi rhent fforddiadwy yn ystyried barn, amgylchiadau ac incwm ein preswylwyr. Mae'n sicrhau bod ein rhenti cymdeithasol yn parhau yn fforddiadwy ac yn seiliedig ar ystadegau cyfredol am yr incwm isaf. Mae'r polisi newydd hwn wedi cysoni rhenti cymdeithasol ClwydAlyn ar draws pob sir, gan sicrhau ein bod yn gyson a theg yn y rhent yr ydym yn ei godi ar breswylwyr.

Rydym yn gweithio ar draws 6 Awdurdod Lleol i'r cartrefi dan y drefn rheoleiddio rhent.

Roedd cyfartaledd % y gwahaniaeth ar gyfer rhent ClwydAlyn ar draws 6 ardal Awdurdod Lleol yn 11.20% dan y Lwfans Tai Lleol yn seiliedig ar renti ar gyfer 2022/23.

Awdurdod Lleol Gwahaniaeth cyffredinol	Debyd ar Gyfartaledd	Cyfartaledd Lwfans Tai Lleol	% Gwahaniaeth
Sir Ddinbych	£103.45	£113.70	10.47%
Conwy	£101.79	£108.52	6.20%
Sir y Fflint	£104.66	£121.27	16.06%
Powys	£107.62	£99.19	-2.63%
Wrecsam	£104.76	£112.98	9.90%
Ynys Môn	£119.36	£107.74	5.52%
Yr Holl Stoc yn Gyffredinol	£107.01	£114.63	11.20%

Defnyddir cyfraddau Lwfans Tai Lleol i gyfrifo faint o fudd-dal tai (neu elfen tai y Credyd Cynhwysol) y gellir ei dalu i denantiaid yn y sector preifat ar rent.

Mae'n seiliedig ar renti y farchnad breifat sy'n cael eu talu gan denantiaid yn y farchnad rhenti preifat eang ac mae'n cael ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth.

11.20%

Ar gyfartaledd mae ein rhent 11.20% yn rhatach na'r Lwfans Tai Lleol.

98.83%

Rydym am roi sicrwydd i'n preswylwyr, fel eu bod yn gwybod bod ganddynt le i fyw. Mae gan 98.83% o'n cartrefi ar rent denantiaeth sicr.

Lleihau effaith tlodi tanwydd



Cartrefi, Pobl, Bywydau a Chymunedau Iach (HHPLC).

Nod y prosiect arloesol hwn yw cyflawni dull holistaidd sy'n cydnabod y cysylltiadau rhwng tlodi tanwydd, anghyfartaledd iechyd y gellir ei osgoi a llesiant. Wedi ei ddarparu mewn partneriaeth â Cymru Gynnes a TGP Cymru (yr arbenigwyr Byw â Chefnogaeth), mae HHPLC yn dwyn at ei gilydd gyngor a chymorth ynni, presgripsiynau cymdeithasol, a llesiant i wella deilliannau iechyd pobl trwy ddeall yr achosion sylfaenol. Yn ystod 2022/23 darparodd HHPLC:

2392

o ymyraethau cefnogaeth.

633

o bobl wedi eu cyfeirio at wasanaethau cefnogi eraill.

2456

aelwyd wedi derbyn cyngor arbed ynni.

A allai arwain at
£122,800
o arbedion.

89

o staff ClwydAllyn wedi derbyn hyfforddiant ynni.

589

o dalebau am gefnogaeth tanwydd argyfwng (cyfanswm o £28,861 o arian at fanciau tanwydd).

Mae ein timau rheng flaen yn parhau i hyrwyddo a chefnogi preswylwyr i ymuno â'r cynllun Help U i'r rhai sy'n gymwys, sy'n lleihau tariff dŵr i breswylwyr a hefyd yn rhoi cymorth ar gyfer unrhyw ôl-ddyledion o ran y cyflenwad dŵr.

617

O breswylwyr newydd wedi eu croesawu.

108

O bobl wedi eu croesawu i'n cynlluniau byw â chefnogaeth.

Dyluniwyd ein cynlluniau byw â chefnogaeth a gwasanaethau i fodloni anghenion pobl sydd angen cefnogaeth ychwanegol, fel pobl â phroblemau caethiwed i gyffuriau/sylweddau, pobl mewn perygl o ddioddef trais domestig neu rieni yn eu harddegau.

Fe wnaethom helpu 432 o bobl i gael

£1,009,303.44

Mewn incwm ychwanegol trwy ein tîm hawliau lles.

566 O bobl wedi cael eu cefnogi

gan ein swyddogion ymyrraeth gynnwr yn cefnogi tenantiaethau cyntaf, taliadau heb eu talu ac ôl-ddyledion isel.

Cyfradd EPC y cartrefi presennol

A - 8%

B - 26%

C - 46%

D - 19%

E - 1%

Cyfraddau EPC cartrefi newydd

EPC A - 68.46%

102 o dai newydd yn ôl Manyleb ClwydAllyn.

EPC B - 25.50%

38 wedi eu caffael o'r farchnad agored (arian Rhaglen Cyfalaf Llety Trosglwyddo (TACP)) a rhentu i brynu.

EPC C - 6.04%

9 wedi eu caffael o'r farchnad agored (cyllid TACP) ac eiddo byw â chefnogaeth sydd wedi ei drosi.

Yr ydym wedi sefydlu Menter ar y Cyd gyda Cartrefi Conwy..

Rydym wedi sefydlu Onnen, Menter ar y Cyd gyda Cartrefi Conwy. Mae Onnen wedi ymrwymo i gyflawni gwaith effeithlonrwydd ynni yn ein cartrefi presennol, fel gosod insiwleiddiad, paneli solar a systemau gwresogi mwy gwyrdd.



Bydd Onnen yn cyflawni gwaith ôl-osod ar y raddfa ac yn yr amserlen y mae arnom eu hangen trwy gyfuno ein grym prynu i gyflawni arbedion trwy raddfa'r pryniant, gan wneud y mwyaf o werth cymdeithasol. Gan adeiladu ar lwyddiant Creu Menter a Rhaglenni Cyflogadwyedd ClwydAlyn, bydd y cwmni yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth i denantiaid a'r cymunedau yr ydym ni ein dau yn gweithredu ynddynt.

Cyflwyno ceisiadau cyllid am arolygon PAS2035, solar PV, batris, pypiau gwres ffynhonnell aer, silindrau dŵr poeth clyfar, papur wal isgoch a synwryddion amgylcheddol.

Cadarnhau cyllid ar gyfer ein heiddo gradd E, F a G (tua 150) i'w gwella i gyfradd 'C' o leiaf.

Ysgrifennodd preswylwr atom i ddiolch i aelod o'n tîm Gwasanaeth Nwy:

" Roedd popeth yn berffaith roedd y peiriannydd nwy yn berson hyfryd i ymdrin ag o ac fe wnaeth fy helpu i ddeall fy system wresogi, yn gwerthfawrogi'n fawr, diolch."



Sicrhau bod taliadau gwasanaeth yn deg ac yn cynnig gwerth am arian.

73%

o breswylwyr yn fodlon bod eu taliadau gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian.



Adolygiad tâl gwasanaeth


Rydym wedi cwblhau adolygiad llawn o daliadau gwasanaeth ar draws ein 11 o gynlluniau tai cysgadol. Mae'r gwaith hwn wedi ein galluogi i ddeall pa wasanaethau sy'n bwysig i breswylwyr ac a ydyn nhw'n cynnig gwerth am arian. Mae'r preswylwyr wedi cael rhan lawn yn y gwaith hwn a datblygwyd cynlluniau gweithredu ar gyfer pob cynllun i symud syniadau ymlaen i leihau'r swm y mae preswylwyr yn ei dalu mewn taliadau gwasanaeth. Elfen allweddol o'r gwaith hwn oedd edrych sut y gallwn leihau costau ynni yn y cynlluniau gan roi mwy o ddewis o ran y gwasanaethau y gallant fod am eu cael neu beidio. Mae nifer o gynlluniau wedi gallu gwneud arbedion sydd wedi cael eu defnyddio'n uniongyrchol tuag at wrthbwysu cost gynyddol nwy a thrydan. Yn ystod 2022/23 mae gwaith hefyd wedi digwydd yn ein cynlluniau Gofal Ychwanegol i adolygu taliadau gwasanaeth, yn neilltuo yn ymwneud â darparu bwyd a chostau ynni.

Mae ein tâl rheoli yn talu am y costau gweinyddol neu reoli sy'n gysylltiedig â chyflawni ein gwasanaethau. Mae'n cynnwys pethau fel cost caffael a rheoli contractau, tai a chyswllt a chefnogaeth i breswylwyr, yn ogystal â chost gweinyddu anfonebau yn gysylltiedig â'ch cartref neu ardaloedd cymunedol. Mae gweddill eich tâl gwasanaeth yn talu am wir gost pob gwasanaeth ei hun.



Darparu gwasanaeth rhagorol a rhoi gwybod i chi sut yr ydym yn perfformio o ran gwaith cynnal a chadw hanfodol, gwaith trwsio a diogelwch.

Cwblhaodd ein Canolfan Gyswllt **2608** o **alwadau bodlonrwydd** ar waith cynnal a chadw'r flwyddyn ddiwethaf yn dilyn gwaith cynnal a chadw arferol, roedd y **bodlonrwydd cyffredinol** yn **90%**



90%

o breswylwyr yn hapus â'r gwaith atgyweirio a chynnal.



85%

o breswylwyr yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd.



100%

o'r gwaith atgyweirio brys wedi'i gwblhau cyn pen 24 awr. Yr amser cyfartalog oedd ½ diwrnod.



95%

o'r gwaith atgyweirio brys wedi'i gwblhau cyn pen 7 diwrnod.



24,019

o dasgau atgyweirio a chynnal wedi'u cwblhau.



96%

o apwyntiadau wedi'u cadw.



515

o gartrefi gwag wedi'u hadnewyddu.



36

diwrnod oedd yr amser ar gyfartaledd i ailosod cartref.



88%

o'r swyddi wedi eu cwblhau ar yr ymweliad cyntaf.

Fel arfer mae gennym rhwng 1,000 a 1,500 o swyddi ar agor ar y system sydd tua 2½ i 3½ wythnos o waith. Mae'n ein helpu i gynllunio ymlaen a chael cydbwysedd rhwng y flaenoriaeth i'w rhoi i wahanol swyddi a'r lefel gywir o staff.

Wyddech chi y gallwch chi ofyn i ni eich ffonio nôl?

Byddwn yn cadw eich lle yn y ciw ac yn eich ffonio nôl yn eich tro, felly does dim rhaid i chi aros ar y ffôn.



56,628

o alwadau wedi eu derbyn



89.3%

o'r galwadau wedi eu hateb...
mae hynny'n

50,552



2 munud
26 eiliad

oedd yr amser aros ar
gyfartaledd i'r galwadau
gael eu hateb



54%


o fewn
40 eiliad!



PAM NAD YDYM YN ATEB POB GALWAD?

Tra bydd pobl yn aros, rydym yn eu hatgoffa eu bod yn gallu defnyddio'r porth preswylwyr yn hytrach nag aros. Mae llu o resymau pam bod pobl yn rhoi'r ffôn i lawr cyn i ni ateb.


Bob hyn a hyn mae rhai pethau'n effeithio ar ein hamseroedd gwasanaeth sydd tu hwnt i'n rheolaeth.



Gwelodd Storm Arwen gynnydd anferth yn y nifer o gwsmeriaid wnaeth gysylltu ym mis Tachwedd 2021. Fe wnaeth hefyd greu cynnydd mawr yn y nifer o swyddi i'n timau cynnal a chadw. Rydym hefyd wedi rhoi mwy o bwyslais ar ein dull iawn tro cyntaf, sy'n golygu ein bod yn treulio ychydig yn hwy gyda chwsmeriaid ar y dechrau. Mae hyn wedi golygu bod ein hamseroedd aros yn hwy cyn i rai galwadau gael eu hateb.

2006

O bobl wedi cofrestru
ar ein Porth Preswylwyr
FyClwydAllyn.
Y ffordd fwyaf
poblogaidd
o dalu



Galwodd preswylwr heibio i ddiolch i aelod o'n Tîm Trydanol:

"Roeddwn yn fodlon iawn ar bopeth, roedd y gweithwyr yn hyfryd, ac mae fy mab yn awtistig, ac fe wnaethant bopeth allan nhw i'w gwneud hi'n haws iddo, allwn i ddim bod wedi gofyn am bobl gleniach, diolch."

Ysgrifennodd preswylwr atom i ddiolch i Fay Massey:

Fay Massey



Hoffai'r preswylwr ddiolch i Fay am ei help. Mae hi wedi bod yn cael trafferth gyda Scottish Power ac mae wedi bod heb nwy am wythnos ac fe wnaeth Fay ffonio Scottish Power drosti a hefyd trefnu i wresogyddion gael eu gadael yno. Roedd Fay yn wych!



Sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed, gwrando ar eich adborth, ac ymdrin â chwynion yn gyflym a theg.

80%

o breswylwyr yn dweud eu bod yn ymddiried yn ClwydAlyn.



76%

yn fodlon ein bod yn gwrando ar eich barn ac yn gweithredu arni.



67%

yn fodlon bod ClwydAlyn yn rhoi cyfle iddynt roi eu barn ar sut y mae gwasanaethau yn cael eu rheoli.



147 o breswylwyr

yn rhan o'n grŵp #Dylanwadwch (cynnydd o 37% ers y llynedd) ac wedi cymryd rhan mewn 8 prosiect gan ein helpu i siapio ein gwasanaethau.

Gan gynnwys mewnbwn i'n llyfryn tamprwydd, anwedd a llwydni, llyfryn Cymdeithas y Preswylwyr, gwefan newydd, Polisi Pryderon y Preswylwyr, Cylchgrawn y Preswylwyr, Gwasanaeth Atgyweirio DIY, ynghyd â phrosiectau eraill.

Os hoffech gymryd rhan ffoniwch

Laura Mckibbin ar **07880431004**

neu e-bostiwch: InfluenceUs@clwydalyn.co.uk

#Dylanwadwch



70%

o breswylwyr yn fodlon ar y cyfle i gymryd rhan ym mhrosiectau llunio penderfyniadau ClwydAlyn.



67%

yn fodlon ar y ffordd y mae ClwydAlyn yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.



Cwynion

Gwelir yr holl gwynion fel adborth gwerthfawr a chyfle i ddysgu, gan ein galluogi i wneud gwelliannau i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a llenwi'r cylch trwy roi gwybod i breswylwyr am werth eu hymgysylltiad.

Mae ein Panel Cwynion arobryn yn cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Preswylwyr, gwirfoddolwyr ehangach o ClwydAlyn ac uwch swyddogion. Gan annog trafodaethau ystyrlon ac agored, gan sicrhau bod themâu allweddol neu feysydd sy'n peri pryder yn cael eu dynodi. Rydym yn defnyddio asiantaeth annibynnol i greu arolwg o'r preswylwyr am y gwasanaeth a gawsant.

Mae'r canlyniadau'n cael eu monitro a phan fydd unrhyw broblemau wedi eu dynodi, bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y Cynllun Gweithredu Cwynion sydd yn awr yn rhan o gynllun gwella parhaol. Rhoddir adroddiad am y cynnydd ar hyn yn ogystal ag unrhyw feysydd sy'n peri pryder i'r Panel Cwynion a Phwyllgor y Preswylwyr.



Lorraine
Rheolwraig
Llywodraethu
a Chwynion

Fy swyddogaeth yw sicrhau bod eich cwynion yn cael eu trin mewn modd cyson a theg. Rwy'n ymroddedig i sicrhau ein bod yn ymateb yn dda i unrhyw bryderon neu gwynion all fod gennych am ein gwasanaethau. Rwyf hefyd yn gweithio i ddynodi unrhyw wersi a ddysgwyd neu welliannau i'r gwasanaeth oddi wrth eich adbort.

Mae gan ein gwefan newydd dudalen benodol ar gyfer cwynion, www.clwydalyn.co.uk/compliments-complaints yn ymgorffori manylion am y tîm, gan ei gwneud mor hawdd â phosibl i Breswylwyr gyflwyno cwynion, pryderon neu ganmolïaeth.

Yn ystod y

12

mis diwethaf:

60

Cwyn wedi ei datrys ar gam 1

3

Wedi eu datrys ar gam 2

8

Wedi eu hystyried gan yr Ombwdsmon

DIM

cwynion wedi eu cadarnhau gan yr Ombwdsmon

DIOLCH

Ysgrifennodd preswyllydd o Sir y Fflint atom i ddiolch am waith y tîm cwynion:



"Roeddwn eisiau diolch i chi am eich cymorth parod, rydych chi'n wych ac wedi gwneud popeth y gwnaethoch ddweud y byddech yn ei wneud."




Gwario arian yn ddoeth a dweud wrthyhch sut yr ydym yn ei wario fel eich bod yn gallu ein gwneud yn atebol.

2022/23

Sut cafodd yr incwm a gasglwyd gennym ei wario yn 22/23

- Costau Rheoli **£7.4 miliwn**
- Costau Gwasanaeth **£20.6 miliwn**
- Gwaith trwsio o ddydd i ddydd **£7.2 miliwn**
- Gwelliannau Mawr **£6.0 miliwn**

- Ad-daliadau Morgais **£7.5 miliwn**
- Foids a dyledion drwg **£0.9 miliwn**
- Buddsoddiad mewn Cartrefi Newydd **£2.9 miliwn**



Costau Rheoli

Talu am holl orbenion (costau) ClwydAlyn, gan gynnwys eitemau fel cyllid, TG, cyfathrebu, llywodraethiant, staff tai a'r costau busnes sy'n gysylltiedig â rhedeg y sefydliad.



Costau Gwasanaeth

Talu am gost darparu gwasanaethau yn ein cartrefi fel glanhau, glanhau ffenestri, garddio, cyfleustodau, a threth y cyngor. Mae'n cynnwys gwaith cynnal ac adnewyddu offer cyffredin fel systemau mynediad drysau, gatiau, lifftiau, erialau teledu, offer golchi dillad, yn ogystal ag adnewyddu ardaloedd cyffredin. Mae hefyd yn cynnwys costau staff fel glanhawyr, staff arlwy, nyrsys, ymarferwyr gofal a gweithwyr prosiect sy'n gweithio yn ein gwasanaethau digartref a byw â chymorth.

Gwaith cynnal arferol

Cost ein gwaith atgyweirio ymatebol (trwsio pethau pan fyddan nhw'n torri).



Gwelliannau Mawr

Cost gwelliannau tymor hir yn ein cartrefi, fel ailweirio, systemau gwres trydanol, mesurau arbed ynni ac adnewyddu eitemau fel ceginau, ystafelloedd ymolchi, boeleri, toeon, ffenestri a drysau.

Ad-daliadau Morgais

Y llog rydym yn ei dalu ar yr arian rydym wedi'i fenthycu i adeiladu a phrynu tai.

Foids (cartrefi gwag)

Mae gennym bob amser rywfaif o dai gwag, ac mae amryw o resymau dros hynny: e.e. faint o waith mae angen ei wneud i'w troi yn dai o ansawdd ar gyfer y preswylwyr nesaf. Rydym eisiau i bobl symud i'n tai gwag yn gyflym, felly rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddod o hyd i bobl sy'n chwilio am gartref, paratoi'r denantiaeth, a sicrhau bod y tŷ yn barod ac yn ddiogel fel y gallant symud i mewn mor gyflym â phosibl.

Yn anffodus, rydym yn colli rhywfaint o arian ar bob eiddo gwag gan na allwn gasglu rhent pan fydd eiddo yn wag. Ein colledion oherwydd tai gwag yn 22/23 oedd 2.1% (£921k), sy'n uwch na'n targed o 1.9% (£809k). Gall tŷ fod yn wag am gyfnod hirach am sawl rheswm, efallai byddwn yn penderfynu peidio â'i ail-osod gan fod gennym gynlluniau eraill ar ei gyfer (ailddatblygu), neu efallai bod angen gwneud gwaith sylweddol i gyrraedd y safon cywir. Weithiau bydd yr oedi y tu hwnt i'n rheolaeth, yn enwedig yn achos ein gwasanaethau Gofal a Gofal Ychwanegol.

Dyledion drwg?

Dyled wael yw cyfanswm y rhent a'r costau gwasanaeth sy'n ddyledus i ni, ond nad ydym wedi gallu eu casglu. Y cyfanswm yn ystod 22/23 oedd £227k.

Gwnaethom adnewyddu 515 eiddo gwag y llynedd a chroesawu 617 o breswylwyr newydd.

Ar gyfartaledd, cymerodd 36 diwrnod i ail-osod eiddo.



Gwnaethom adeiladu 149 o gartrefi newydd ac roedd

102 yn gartrefi ynni-effeithlon.

Costau Cartrefi



£210,000

Newydd EPC A
Costau Eiddo




£245,000

EPC A Carbon Isel
Costau Eiddo

ALLWEDD

- Nifer y Cartrefi Newydd EPC A a adeiladwyd
- Nifer y Cartrefi EPC A Carbon Isel (Gwyrdd) a adeiladwyd

Wedi ei gydnabod fel un o ddatblygwyr cartrefi cynaliadwy amlycaf y Deyrnas Unedig



3ydd yn y Deyrnas Unedig am adeiladu cartrefi cynaliadwy (EPCA) arolwg 50 Biggest Builders 'Inside Housing' 2023.

Fel arfer rydym yn derbyn 60% o'r arian i godi cartrefi newydd drwy grantiau, a gallwn fenthycu 40% o gost y gwaith adeiladu. Yna rydym yn defnyddio rhywfaint o'r rhent o'r cartref newydd i dalu'r benthychiad dros gyfnod amser hirach, yn union fel morgais.

Nifer o gartrefi newydd yn ôl categori:

Math o Dai	Nifer	Fel % o stoc
Anghenion Cyffredinol	132	88.60%
Rhentu i Berchnogi	13	8.72%
Tai â Chymorth	4	2.68%
Cyfanswm	149	100%

Yn ClwydAlyn, rydym yn credu mewn grymuso preswylwyr i fyw yn eu cartrefi. Rydym wedi creu fideos gwresogi y gellir eu gweld ar y porth preswylwyr, a phan fyddwn yn gwneud gwelliannau ôl-osod, rydym yn rhoi hyfforddiant a chynghor ar sut i ddefnyddio'r dechnoleg newydd. Trwy fod yn bartneriaid i Cymru Gynnes rydym yn gallu cefnogi preswylwyr trwy gydol eu tenantiaeth, gan gynnig cyfeiriadau pan fydd angen.

Mae ein tîm cynnal a chadw yn gweithredu'n ymarferol, gan roi cymorth mewn cartrefi a dangos sut i ddefnyddio'r gwahanol systemau. Rydym yn cydweithio gyda phreswylwyr i greu gwybodaeth sy'n eu helpu i fyw'n dda, gan gynnwys cyfarwyddyd ar wneud y mwyaf o dechnoleg werdd yn ein cartrefi carbon isel. Gyda'r preswylwyr, rydym wedi adolygu ein dull o reoli tamprwydd a llwydni, gan gynnig cyfarwyddyd rhagweithiol i leihau'r problemau yma.

ClwydAlyn

**EICH
CARTREF
ECO**



ClwydAlyn.co.uk
@ClwydAlyn



**Eich cefnogi i fyw'n dda yn eich cartref,
fel eich bod yn gallu byw'r bywyd yr
ydych yn ei ddewis mewn cymuned
ddiogel a chysylltiedig.**

ELENI RYDYM WEDI:

Darparu **7** o grwpiau
cymunedol gyda

£1,000

ar gyfer prosiectau a
awgrymwyd gan y preswylwyr.
3 yn canolbwyntio ar
gynhwysiant digidol, 2 ar dyfu
bwyd, 1 ar wella **llesiant**
preswylwyr ac **1 grŵp**
cymunedol a sefydlwyd
yn un o'n cynlluniau newydd
gan alluogi mwy o
ryngweithio cymdeithasol
rhwng **preswylwyr**.

Wedi defnyddio ein cronfa
breswylwyr i roi

£19,310

o gefnogaeth ariannol i

89

o breswylwyr ar
gyfer amrywiaeth o bethau
fel prynu parseli bwyd
argyfwng neu helpu gyda
nwy neu drydan. Mae hefyd
wedi ariannu eitemau
hanfodol i'r cartref, fel
carpedi a phoptai.

Trwy ein partneriaeth tlodi
bwyd gyda Bwydo'n Dda
(partneriaeth rhwng
ClwydAlyn, Cyngor Sir y Fflint
a'r fenter gymdeithasol Can
Cook) wedi darparu dros

75,000

o **brydau iach** i'n **preswylwyr**
Gofal Ychwanegol

a dros **6,000**

o **brydau iach** i
ffoaduriaid o Wcrain.

Wedi darparu **76**

o breswylwyr mewn
argyfwng gyda chefnogaeth
bwyd uniongyrchol.

Wedi darparu **102**

o dalebau bwyd i
breswylwyr at y Nadolig.

Rhoddodd y staff **57**

o anrhegion Nadolig
i breswylwyr mewn angen
at y Nadolig.

Dim

Troi allan i ddigartrefedd.

Wedi darparu cymorth

tlodi tanwydd i **23**

o breswylwyr mewn
argyfwng.

Wedi darparu cymorth
iechyd a lesiant i

75

o breswylwyr mewn
argyfwng.

Wedi darparu cymorth

uniongyrchol i **34** o
breswylwyr mewn argyfwng
i'w helpu i gadw eu heiddo.

84%

yn fodlon bod eu
hardal yn lle da i fyw.



Mae ailstrwythuro ein tîm gwasanaethau
tai yn awr wedi ymwreiddio'n llawn ac
mae swyddogion yn gweithio ar draws
ardaloedd cymunedol gyda chyfartaledd
o 250 o gartrefi i bob ardal. Mae ein
pwyslais ar lunio perthynas gyda
phreswylwyr, ac rydym yn ymweld â'r
holl breswylwyr yn flynyddol.

Rydym wedi adolygu'r ffordd yr ydym
yn ymdrin ag achosion ymddygiad
gwrthgymdeithasol ac wedi datblygu
polisi sy'n unol â'n gwerthoedd, gan
ddefnyddio dull ataliol ar sail trawma.
Yn awr rydym yn cychwyn pob achos
fel 'pryder preswylwyr' ac yn gweithio
gyda phreswylwyr i ddynodi ffyrdd y
gellir lleihau'r problemau ar unwaith.
Rydym wedi gweithio'n galed i ddatblygu
trefniadau gweithio mewn partneriaeth
gydag awdurdodau lleol, Heddlu Gogledd
Cymru a Gwasanaethau Iechyd. Rydym yn
parhau gyda'n dull o ran troi allan sydd yn
bwysicach nag erioed. Rydym yn parhau
i beidio troi allan a'r flwyddyn ddiwethaf
dim ond 11 rhybudd a gyhoeddwyd ar
draws ein cartrefi anghenion cyffredinol
a chysgodol.

Rydym wedi gweithredu polisi gosod rhent
cymdeithasol a gymeradwywyd gan y
Bwrdd ym Mawrth 2023, mae'n sicrhau bod
ein rhenti cymdeithasol yn parhau
yn fforddiadwy ac yn seiliedig ar
ystadegau cyffredol am yr incwm isaf.
Mae'r polisi newydd hwn wedi cysoni rhenti
cymdeithasol ClwydAlyn ar draws pob sir,
gan sicrhau ein bod yn gyson a theg yn y
rhent yr ydym yn ei godi ar breswylwyr.



Cododd ein
Cysgu
Allan Mawr
£4,724.41
i bobl
ddigartref.

Llwyddiannau allweddol:

Sefydlu

Canolfan Groeso
i 140 o ffoaduriaid o
Wcráin, mewn partneriaeth
â Chyngor Gwynedd.
Roeddem yn falch o arwain
ymateb Gogledd Cymru
i'r argyfwng ffoaduriaid
o Wcráin.

Agor

gwasanaeth mam
a babi newydd
'Kingsland' i wella
deilliannau i famau ifanc
digartref yng Nghyngor
Bwrdeistref Sirol
Wrecsam.

Rydym yn falch iawn o fod y
**Gwasanaeth
Cam-drin Domestig
cyntaf yng
Ngogledd Cymru**

i gael ei achredu gyda
Safonau Ansawdd
Gwasanaeth
Cenedlaethol Cymorth i
Ferched Cymru.

Mae ein **Canolfan ICAN** mewn
partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr yn y Rhyl. Mae wedi
cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel
gwasanaeth arfer gorau sy'n darparu cefnogaeth
heb fod yn glinigol i gynorthwyo pobl sy'n
cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl.

**Llwyddiannus
wrth** ennill y
contract ar gyfer
**Gwasanaeth
Cam-drin
Domestig yn
Sir y Fflint.**

To All staff

Thank you all so much for
always being there for me and
supporting me through these past
few months.
You guys have helped me so
so much. You all made my
time living here so easy and
fun.

I will miss you all so much

Love from
Leigha (room 21)

p.s.
I will come back and keep
you updated on the gossip
x x

Jane Hutt AM/MS
Gweinidog Cyflawnder Cynddrifonol a'r Prif Ghlwp
Minister for Social Justice and Chief Whip



Ein cytŵir ref: JHPO/278/2023

Clare Budden
Chief Executive
Clwyd Alyn Housing Association
clare.budden@clwydalyn.co.uk

Cc: inda.hughes@clwydalyn.co.uk

11 August 2023

Dear Clare,

I would like to express my sincere gratitude for the role Clwyd Alyn Housing Association has played in ensuring Wales could fulfil our ambition of being a Nation of Sanctuary.

Neuadd Gorth was established as Bangor Welcome Centre in April 2022 to welcome Ukrainians into Wales through the Welsh Government Homes for Ukraine Super Sponsor Scheme. The Welcome Centre offered single accommodation for a total of 140 guests following the outbreak of the war in Ukraine. Clwyd Alyn managed the welcome centre with great skill and compassion and developed an excellent working relationship with colleagues in Cyngor Gwynedd, Bangor University and the Welsh Government in the process. Your team's efforts were critically important in ensuring the Welcome Centre ran smoothly on the ground and that any operational challenges were addressed quickly.

There is no doubt that you and your team have helped towards writing an important chapter in the history of modern Wales as a compassionate, globally responsible nation.

Yours sincerely,

Jane Hutt AM/MS
Gweinidog Cyflawnder Cynddrifonol a'r Prif Ghlwp
Minister for Social Justice and Chief Whip

Fe wnaethom helpu:

75

o'n preswylwyr byw â chefnogaeth i symud i gartref parhaol

27

o'n preswylwyr byw â chefnogaeth i fynd ar gwrs neu gymryd prentisiaeth

142

o blant wedi cael cefnogaeth ar draws ein cynlluniau

19

o'n preswylwyr byw â chefnogaeth i fynd i swyddi amser llawn

34

o'n preswylwyr byw â chefnogaeth i ymuno â chysiau coleg a phrifysgol

Rydym wedi bod mewn

10

ysgol ar draws Gogledd Cymru i gefnogi gweithdai cyfweiliad neu ffeiriau gyrfaeodd

1229

o bobl wedi cael cefnogaeth trwy ein gwasanaethau byw â chefnogaeth

WE MIND THE GAP.

Mae We Mind The Gap (WMTG) yn cefnogi pobl ifanc nad ydynt yn cael gwasanaeth digonol i fyw bywydau annibynnol. Mae WMTG yn darparu rhaglen hollistaidd 12 mis o brofiad gwaith, hyfforddiant sgiliau, profiadau newydd, a chefnogaeth feddyliol ac emosiynol i bobl ifanc, neu Gappies. Mae ClwydAllyn yn cefnogi WMTG trwy ddarparu lleoliadau gwaith cyflogedig i Gappies ar draws y sefydliad.

Yn ystod 2022/23, graddiodd **10 o bobl ifanc** o'r rhaglen, gyda **4 yn cael gwaith**, **1 yn mynd ymlaen i addysg uwch** a **3 yn gwirfoddoli** ar ôl y rhaglen.



We Mind the Gap

DYSGU'N SEILIEDIG AR WAITH



DFN Project Search

Mae ClwydAllyn yn falch o gefnogi **Prosiect Search** a **WeMindTheGap** ers blynnyddoedd lawer.

Eleni, bydd ein tîm cynnal a chadw yn cynnig amrywiaeth o leoliadau i'r ddwy raglen i roi profiad i'r dysgwyr o grefftiau fel Plymio, Trydan, Peintio ac Addurno, Gwaith Coed a Chynnal a Chadw Tiroedd.

Gan weithio mewn partneriaeth â HFT, Cyngor Sir y Fflint a ClwydAllyn, mae Prosiect Search DFN yn cynnig cyfleoedd dysgu yn y gwaith hanfodol i bobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth i'w helpu i gael swyddi ystyrlon, cyflogedig.

Mae WeMindTheGap yn cynnig 6 mis o gyflogaeth i ddynion sy'n preswyllo yn Sir y Fflint, 18-25 oed, sy'n cael eu tanwasanaethu, yn ddifreintiedig neu fregus mewn rhyw ffordd. Ochr yn ochr â hyn maent yn cynnig sgiliau hyfforddiant bywiad, mathemateg a Saesneg a phrofiad gwaith ystyrlon.



Rydym yn edrych ymlaen at groesawu interniaid o'r ddwy raglen i'n tîm cynnal a chadw.

Rhaglen trosglwyddo i waith blwyddyn yw Prosiect SEARCH i oedolion ifanc ag anabledd dysgu neu gyflyrau sbectrwm awtistiaeth, neu'r ddau. Mae ClwydAlyn yn darparu interniaethau gwaith gyda chefnogaeth i bobl ifanc ar eu blwyddyn olaf mewn addysg, gan eu helpu i gymryd camau cyntaf cadarnhaol i fyd gwaith.



Graddiodd 6 o bobl ifanc o'r rhaglen, gydag **1** yn cael gwaith ar ôl y rhaglen.

Stori Delmar...

Cychwynnodd Delmar fel intern ar raglen Prosiect SEARCH ClwydAlyn. Fe wnaeth ei diwtor ei helpu i ymgeisio am waith gyda'r tîm domestig a rhoi cyfle iddo gael cyfweiliad gwaith. Mae Delmar yn awr yn aelod parhaol o staff ClwydAlyn.

Dyweddodd Delmar:


" Fy nod oedd cael swydd a gweithio. Erbyn hyn mae gennyf swydd gyda ClwydAlyn sy'n bwysig i mi. Mae wedi fy helpu i ddysgu sgiliau newydd, cael hunanhyder, wedi gadael i mi ennill fy arian fy hun a helpu i mi deimlo fy mod yn perthyn."



GLANHAU'R AFON

Gawn ni roi bloedd fawr i'n tîm o staff wnaeth gymryd rhan yng ngwaith glanhau'r afon o gwmpas Llys Alarchyn ddiweddar.

Bu i'r tîm o wirfoddolwyr gasglu llawer o sbwriel o'r afon, cael gwared ar rywogaethau nad oeddynt yn frodorol o lan yr afon (cadarnhaodd y Cyngor eu bod yn rhywogaethau ymledol) a chasglu sbwriel o gwmpas Llys Alarch.



Tom ddaeth o hyd i'r peth mwyaf gwallgof - sef coeden Nadolig!

Bydd yr holl sbwriel yn mynd i gael ei sortio a'i ailgylchu lle bo'n bosibl gan Travis Perkins. Y gwirfoddolwyr arbennig oedd Jennifer Toner, Erin O'Donnell, Ami Jones a'i merch, Andy Frazer, James Howsam, Tom Boome, Ellen Wharton ac Amu Teodorescu.

Da iawn a diolch yn fawr ichi gyd!!



TACLUSO TRAETH TALACRE

Mae'r haf wedi cyrraedd o'r diwedd ac wrth inni groesawu'r tywydd braf bu i Cameron Hughes o'r prosiect Quay a staff ClwydAlyn fynd ati unwaith eto a helpu i gael gwared ar hen lwyni o'r morlin.

Bydd ein tenantiaid hefyd yn mynd i Dalacre unwaith y mis tan dymor yr Hydref i helpu'r amgylchedd, dysgu am natur a chyfarfod ag eraill sy'n angerddol dros natur.

Diolch ichi am eich holl waith caled!

Bwydo'n Dda i
deuluoedd mewn
argyfwng...

**BWYDO'N WELL
DDA -FED**

Yn ystod 2022-23,
darparodd **Bwydo'n Dda**
(ein partner bwyd da)
1,730 o focsys bwyd
deuluoedd mewn argyfwng, a
ddarparodd **34,600 o brydau**.

Mae siopau symudol Bwydo'n Dda
wedi darparu **8,321 o brydau**.

Rhodddwyd **172** o boptai
araf i **bobl** a hyfforddiant,
gan gynnwys **1,376 bag**,
a ddarparodd **5,504 o brydau**.



Williams
Homes (Bala) Ltd

Mae ein partner contractwr Williams Homes, gyda
chefnogaeth ClwydAlyn, wedi sefydlu uned ffatri yng
ngharchar y Berwyn, sy'n cynhyrchu paneli tai parod i'w
defnyddio ar ddatblygiadau ClwydAlyn a thai newydd eraill.

- 📍 Mae'r gweithdy yn darparu sgiliau ymarferol a chymwysterau
i'r carcharorion, i'w paratoi i gael gwaith wrth iddynt gael eu
rhyddhau. Buddsoddodd ClwydAlyn **£41,000** i gefnogi'r cynllun.
- 📍 Mae'r ffatri yn cynhyrchu tua 130 o baneli'r wythnos. Mae
cyfanswm o 62 o ddynion wedi cael hyfforddiant trwy'r
cynllun, gan gynnwys 23 sydd yn cymryd rhan ar hyn o bryd.
- 📍 Mae Williams Homes a ClwydAlyn wedi bod mewn
trafodaeth bellach gyda CEF Berwyn yng nghyswllt
cefnogi gwaith i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar.

" Rwyf wedi gweithio yn y gweithdy
tai modiwlaid yn y Berwyn
am tua 14 mis. Rwyf wedi dysgu
sgiliau gwerthfawr y gallaf yn
awr eu defnyddio yn y gymuned
ar ôl fy rhyddhau fel gweithio
gydag amrywiaeth eang o
offer a gallu cyfathrebu a
gweithio ochr yn ochr ag eraill.

" Mae bod yn y gweithdy hefyd
wedi fy helpu i beidio â defnyddio
cyffuriau oedd yn broblem
anferth i mi cyn dod i'r carchar.
Oherwydd fy mod yn brysur yn
gweithio, rwyf yn awr yn teimlo'n
rhan o dîm ac y gallaf gyfrannu
at helpu Williams Homes fel y
maen nhw wedi fy helpu i."

Un o garcharorion
Carchar Ei Fawrhydi Berwyn.

Rydym yn griw cymdeithasol...

Mae ein Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol wedi trefnu rhai digwyddiadau gwych i staff a phreswylwyr gan gynnwys ffair haf am 2 ddiwrnod! Roedd y ffair haf yn cynnwys cwrs rhwystrau, peintio wyneb, cartwnydd, gemau ffair (gan gynnwys rhes o gnau coco), cadair ddowcio, a hyd yn oed farbeciw... Roedd y staff a'r preswylwyr wrth eu boddau!

“ Hoffwn ddiolch i holl staff ClwydAlyn oedd yn rhan o'r diwrnod hwyl heddiw roedd nifer dda iawn wedi troi allan ac fe wnaethom ni i gyd fwynhau. Roedd yn hyfryd gweld sut yr oedd ClwydAlyn yn dod â'r gymuned at ei gilydd ac os bydd mwy yn y dyfodol byddwn yn sicr yn dod yno gan ei fod wedi ei drefnu a'i reoli yn dda iawn. Unwaith eto, diolch yn fawr i chi i gyd Diolch!”

Preswylwr





Sicrhau ein bod yn cael ein rhedeg yn dda ac yn gynaliadwy yn ariannol fel ein bod yn gallu parhau i daclo tlodi.

Llywodraethu

Yn cynnwys gwasanaethau tenantiaid



GWYRDD

Hyfywedd Ariannol



GWYRDD

Mae'r gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddiol a bydd yn derbyn goruchwyliaeth reoleiddiol arferol.

Rydym yn aelod o Gartrefi Cymunedol Cymru (CHC), ac rydym yn dilyn eu Cod Llywodraethu

Bwrdd a Phwyllgorau ClwydAlyn




Yr holl asesiadau rheoleiddiol wedi bod yn gadarnhaol yn y 12 mis diwethaf.



Gorswm gweithredu (arian sy'n weddill)

Er gwaethaf ffactorau allanol fel chwyddiant a'r argyfwng costau byw, ein gorswm gweithredu ar gyfer 2022/23 oedd 18.9%. Mae cael arian yn weddill yn beth da ... gan ein bod yn ei ddefnyddio i ariannu, addasu a gweithio ar fwy o dai i fwy o bobl. Mae gan ein benthycwyr fwy o hyder ynom ni hefyd, felly gallwn fenthycu mwy o arian ar gyfradd llog is.



Gwnaethom hefyd:

- 🏠 Gadw sgôr credyd 'A Sefydlog' gyda Standard and Poor's (S&P) - mae hyn yn dda.
- 🏠 Cadw sgôr A3 gyda Moody's, gan godi o ragolwg negyddol i sefydlog (mae hyn yn sgôr na ofynnwyd amdani ac mae'n bositif hefyd).
- 🏠 Dim benthyciadau ychwanegol yn 22/23 ond gwnaethom dderbyn gwerthiant a ohiriwyd o £40m a oedd yn ddyledus yn 23/24.



Darparu cartref
diogel mewn cyflwr da



Darparu cartref
diogel fforddiadwy



Rhoi gwerth
am arian



Rhoi gwasanaeth
rhagorol



Gwrando ar
adborth a gweithredu



Bod yn agored
a didwyl



Creu balchder yn
ein cymunedau



Rheoli ein
busnes yn dda

#Dylanwadvch



#Dylanwadvch... yw wyneb cynnwys preswylwyr a ffordd hawdd
o roi gwybod i ni beth yw eich barn am ein gwasanaethau.



ClwydAlyn



@ClwydAlyn

Ein Haddewid

Am gymryd rhan a dweud eich dweud? Yna cysylltwch â ni trwy anfon e-bost at influenceus@clwydalyn.co.uk neu cysylltwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol. Neu gallwch ein ffonio ni ar 0800 183 5757.